

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 2: Adran 17

## Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 2 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch y ddyletswydd dan adran 17. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

### Dolenni allweddol:

Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)  
<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

### Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Adran 17** yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sy'n darparu'r canlynol ar gyfer yr holl unigolion yn eu hardal:

- Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i alluogi unigolyn i wneud cynlluniau ar gyfer diwallu ei anghenion am ofal a chymorth neu i ofalwyr wneud cynlluniau ar gyfer diwallu ei anghenion am gymorth yn awr ac yn y dyfodol;
- Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy sy'n hygyrch i'r unigolyn hwnnw.

Mae'n **rheid** i'r gwasanaeth ddarparu gwybodaeth am y canlynol:

- sut y mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu yng Nghymru ac yn lleol;
- y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael yn lleol, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau ataliol
- sut y gall unigolion gael mynediad at y gwasanaethau a'r mecanweithiau cymorth hyn;
- sut y gall unigolion godi pryderon amdanynt hwy eu hunain neu eraill yr ymddengys fod arnynt angen gofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr.

### Beth mae'n ei wneud?

Bydd Adran 17 yn golygu y bydd gan bawb yn ardal yr awdurdod lleol bwynt cyswllt hygyrch mewn perthynas â gofal a chymorth a fydd ar gael trwy amrywiaeth o gyfryngau.

Bydd y gwasanaeth yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i gynorthwyo unigolion i gael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd o bwys iddynt.

Bydd y gwasanaeth yn cynnal asesiad cymesur o anghenion gofal a chymorth wrth gynnig cyngor a chynhorthwy.

### Cydweddiad â'r Ddeddf

Mae'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn ganolog i lwyddiant y system gofal a chymorth newydd, a bydd yn gosod y naws o ran gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion. Mae cysylltiad agos rhwng yr holl weithgareddau dan adran 17 a holl rannau'r Ddeddf ond yn arbennig

asesu a diwallu anghenion am ofal a chymorth (Rhannau 3 a 4).

Mae Adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn trefnu bod ystod o wasanaethau llesiant ataliol ar gael. Bydd cyfeirio pobl at wasanaethau llesiant ataliol yn eu cymuned yn un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth.

Gall asesiad gofal a chymorth gael ei gynnal gan staff trwy drafod a dadansoddi'r 5 elfen allweddol yn yr Offeryn Asesu a Chymhwysra Cenedlaethol (Rhannau 3 a 4).

Mae'n rhaid i staff fod yn ymwybodol o'r angen i weithredu os canfyddir materion diogelu (Rhan 7), os oes angen cydweithredu â phartneriaid eraill (Rhan 9), neu os oedd yr unigolyn mewn sefydliad diogel (Rhan 11).

### **Sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol?**

Mae holl rannau'r Ddeddf wedi'u bwriadu i roi cymorth i gyflawni canlyniadau personol, gan sicrhau bod budd pennaf yr unigolyn o'r pwys mwyaf.

Mae'n rhaid i dimau adlewyrchu cyfuniad o sgiliau a phrofiad o ystod o broffesiynau a sectorau. Mae'n rhaid i staff gael eu grymuso i annog pobl i leisio'u hanghenion am ofal a chymorth, er mwyn bod â rheolaeth ar adnabod eu canlyniadau personol a pha opsiynau sydd ganddynt ar gyfer diwallu eu hanghenion.

Mae'n **rhaid** i'r gwasanaeth ddarparu:

**Gwybodaeth** – gwybodaeth brydlon a chywir i alluogi unigolyn i wneud dewis gwybodus mewn perthynas â'i lesiant.

**Cyngor** – gan gydweithio gyda'r unigolyn i drafod yr hyn sy'n bwysig iddo a'r hyn y mae'n dymuno'i gyflawni; gan ystyried opsiynau a dod i gytundeb ynghylch y ffordd ymlaen trwy asesiad cymesur.

**Cynhorthwy** – gan sicrhau y cymerir camau gweithredu a fydd yn cynorthwyo'r unigolyn i gael mynediad at ofal a chymorth priodol, neu gymorth yn achos gofalwr.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y gwasanaeth yn hygyrch i bawb – hynny yw, ei fod yn groesawus ac yn hawdd mynd ato i oedolion, plant a gofalwyr o bob oed.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy ar gael trwy ystod o gyfryngau e.e. ar y we, dros y ffôn, wyneb yn wyneb, allgymorth, rhwydweithiau cymdeithasol, cyhoeddiadau.

### **Rhagor o wybodaeth**

#### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

[http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw\\_20140004\\_we.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf)

#### **Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:**

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=cy>

#### **Fframwaith Mesur Perfformiad:**

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151005code-of-practicecy.pdf>

#### **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:**

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814nofcy.pdf>

#### **Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:**

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>